www.conwy.gov.uk

# EICH CANLLAW

## I ardrethi annomestig cenedlaethol 2026/2027

### Taflen Esboniadol




Conwy

Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd

# CYNNWYS



| | |
|---|---|
| Sut rydym yn cael ein cyllido | 03 |
| Sut rydym yn gwario'r cyllid | 04 |
| Sut y cyfrifir trethi busnes | 06 |
| Eich canllaw i drethi busnes ar gyfer 2026/2027 | 07 |
| Gwasanaethau rydym yn ei gynnig i fusnesau | 10 |
| Cysylltwch â ni | 11 |


BSL
USED HERE

**Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, sain, braille a Iaith Arwyddion Prydain**

# Sut rydym yn cael ein cyllido

Wyddoch chi mai dim ond **31%** o'n cyllid sy'n dod gan Dreth y Cyngor?





| | |
|---|---|
| **Grant Cefnogi Refeniw** | **£193m** |
| **Swm a godwyd gan dalwyr y Dreth Gyngor** | **£107.5m** |
| **Ardrethi busnes wedi eu hail-ddosbarthu** | **£40.5m** |
| **Cyfanswm** | **£341m** |



# Sut rydym yn gwario'r cyllid refeniw

Ar gyfer blwyddyn ariannol Ebrill 2026 hyd at fis Mawrth 2027 mae **cyllideb refeniw** o **£341 miliwn** gan y cyngor i fuddsoddi yn y gymuned -





## Refeniw

Dyma'r arian rydym yn ei ddefnyddio i dalu am eich gwasanaethau o dydd i ddydd - fel addysgu eich plant, gofalu am yr henoed a chasglu eich deunydd ailgylchu a gwastraff a chael gwared arno.



# Sut rydym yn gwario'r cyllid cyfalaf

Ar gyfer blwyddyn ariannol Ebrill 2026 hyd at fis Mawrth 2027 mae **cyllideb cyfalaf** o **£81.53 miliwn** gan y cyngor i fuddsoddi yn y gymuned. Dyma rai enghreifftiau -




**Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau**
£44.88m (55.73%)

- Cynnal a chadw pontydd a ffyrdd a gwelliannau
- Goleuadau stryd
- Ail-gylchu
- Amddiffynfeydd rhag llifogydd

**Economi a Diwylliant**
£12.1m (15.03%)

- Gwella promenâd
- Llyfrgelloedd
- Cyfleusterau hamdden

**Tai, Cynllunio a Lle**
£3.39m (4.22%)

- Grantiau cyfleusterau i'r anabl
- Addasiadau tai

**Gofal Cymdeithasol**
£0.084m(0.10%)

- Cartref preswyl tymor hir i blant

**Addysg ac Ysgolion**
£17.33m (21.53%)

- Cynlluniau gwella adeiladau ysgol

**Tecnoleg Gwybodaeth**
£2.4m (2.99%)

- Offer TG

**Corfforaethol**
£0.315m (0.39%)

## Cyfalaf

Dyma'r arian rydym yn ei ddefnyddio ar fuddsoddiadau mawr fel ffyrdd, adeiladau, ysgolion, loriau ailgylchu a chanolfannau hamdden ayb.



# Sut y cyfrifir trethi busnes

Mae Gwerthoedd Ardrethol yn seiliedig ar werth rhent blynyddol yr eiddo ar y farchnad agored fel ag y mae ar y dyddiad prisio

**Mae Ardrethi Busnes yn dreth sy'n seiliedig ar 'Werth Ardrethol' eiddo annomestig**

Agor

## Er enghraifft

| Werth Ardrethol | | Lluosydd Safonol Ardrethu Annomestig | | **Atebolrwydd Trethi Busnes** |
|---|---|---|---|---|
| 7,000 | × | 0.502 | = | **£3,514** |

Mae ardrethi yn cael eu cyfrifo trwy luosi'r Lluosydd Ardrethu Annomestig (a oedd yn arfer cael ei alw yn gyfradd yn y bunt) gyda Gwerth Ardrethol eiddo.

O 1 Ebrill 2026, mae tri lluosydd a all fod yn gymwys i eiddo yng Nghymru. Mae'r lluosyddion dros dro a gyhoeddwyd ar gyfer 2026/27 fel a ganlyn:

- lluosydd manwerthu o 0.350, sy'n berthnasol i siopau manwerthu bach a chanolig eu maint sydd â gwerth ardrethol o dan £51,000;
- lluosydd safonol o 0.502, sy'n berthnasol i'r mwyafrif o eiddo arall;
- lluosydd uwch o 0.515, sy'n berthnasol i eiddo sydd â gwerth ardrethol dros £100,000.



# Eich canllaw i drethi busnes ar gyfer 2026/27

**Mae'r wybodaeth a roddirisod yn egluro rhai o'rtermau y gellir eu defnyddio mewn hysbysiad galw am dalu ardreth annomestig ac yn yr wybodaeth ategol. Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch rhwymedigaeth i dalu ardrethi annomestig oddi wrth y Cyngor.**

## Ardrethi annomestig

Mae'r ardrethi annomestig a gesglir gan awdurdodau bilio yn cael eu talu i gronfa ganolog a'u hailddosbarthu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i gomisiynwyr heddlu a throseddu. Mae eich cyngor a'ch comisiynydd heddlu a throseddu yn defnyddio eu cyfrannau o'r incwm ardrethi a ailddosberthir, ynghyd ag incwm oddi wrth y rhai sy'n talu'r dreth gyngor iddynt, y grant cynnal refeniw a ddarperir gan Weinidogion Cymru a symiau penodol eraill, i dalu am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Gellir cael gwybodaeth bellach am y system ardrethi annomestig, gan gynnwys pa ryddhadau sydd ar gael, drwy fynd i www.busnescymru.llyw.cymru

## Gwerth ardrethol

Gosodir gwerth ardrethol eiddo annomestig yn y rhan fwyaf o achosion gan swyddog prisio annibynnol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n un o Asiantaethau Gweithredol Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEM). Maent yn llunio ac yn cynnal rhestr lawn o werthoedd ardrethol pob eiddo annomestig yng Nghymru, ac mae ar gael ar eu gwefan yn www.voa.gov.uk.

Fel arfer, caiff pob eiddo annomestig ei ailbrisio bob 3 blynedd. O 1 Ebrill 2026 mae gwerth ardrethol eiddo yn cynrychioli ei werth rhentol blynyddol ar y farchnad agored fel yr oedd ar 1 Ebrill 2024. Yn achos eiddo cyfansawdd sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, ymwneud â'r rhan annomestig yn unig y mae'r gwerth ardrethol. Dangosir gwerth pob eiddo y mae ardreth yn daladwy i'ch awdurdod arno yn y rhestr ardrethi leol, y gellir archwilio ar y wefan Asiantaeth y Swyddfa Brisio neu yn y swyddfa Coed Pella, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Conway Road, Colwyn Bay LL29 7AY. I gael gwybod sut mae eich Trethi Busnes yn cael eu cyfrifo, ewch i Ardrethi Busnes yng Nghymru

## Ailbrisio

Bydd yr Ailbrisiad nesaf ar gyfer eiddo Ardrethi Busnes yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026 yn seiliedig ar y farchnad rentu ar 1 Ebrill 2024. Mae ailbrisiadau ardrethi busnes yn addasu gwerthoedd ardrethol - ac felly biliau ardrethi – ar sail newidiadau yn y farchnad rentu. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod newidiadau mewn gweithgarwch economaidd, sydd wedi ysgogi newidiadau yng ngwerth y farchnad, yn cael eu hadlewyrchu'n deg mewn rhwymedigaethau ardrethi busnes. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r llywodraeth gyflwyno trefniadau trosiannol ym mhob Ailbrisiad. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio o'r blaen i gefnogi busnesau i addasu i'w biliau newydd.

## Newid yn y gwerth ardrethol

Os ydych yn pryderu y gallai eich ardrethi busnes fod yn anghywir, gallwch wirio'r wybodaeth y mae'r VOA wedi'i defnyddio a rhoi gwybod iddynt os oes rhywbeth yn anghywir gan ddefnyddio'r canllaw hwn: Gwirio a herio'ch prisiad ardrethi busnes: cam wrth gam: cam wrth gam

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen ymholiadau cyffredinol i gysylltu â'r swyddfa brisio

## Y lluosydd ardrethu annomestig

O 1 Ebrill 2026, mae tri lluosydd a all fod yn gymwys i eiddo yng Nghymru. Mae'r lluosyddion dros dro a gyhoeddwyd ar gyfer 2026/27 fel a ganlyn:

- lluosydd manwerthu o 0.350, sy'n berthnasol i siopau manwerthu bach a chanolig eu maint sydd â gwerth ardrethol o dan £51,000;
- lluosydd safonol o 0.502, sy'n berthnasol i'r mwyafrif o eiddo arall;
- lluosydd uwch o 0.515, sy'n berthnasol i eiddo sydd â gwerth ardrethol dros £100,000.

Ar ôl cyfrifo atebolrwydd gros drwy gyfuno'r gwerth ardrethol a'r lluosydd perthnasol, gellir ei leihau o ganlyniad i ryddhad. Mae rhagor o wybodaeth am yr amrediad o ryddhad ardrethi annomestig sydd i'w gael ar gael ar ein tudalennau gwe Busnes Cymru.

Mae Disgrifiad Eiddo swyddogol eich safle - ac osodwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a ddangosir yn Rhestr Drethu 2026 - yn pennu'r gwerth trethiannol a ddefnyddir wrth gyfrifo eich Hysbysiad Galw am Drethi Busnes

Dylid anfon ymholiadau am ddisgrifiad neu werth ardrethol eich eiddo i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae'r manylion cyswllt i'w cael ar gwefan VOA

Bwriad lluosydd manwerthu is ar gyfer siopau bach a chanolig eu maint yw ailgydbwyso'r system ardrethi annomestig o'u plaid. Mae hyn yn cydnabod yr heriau unigryw sy'n wynebu siopau manwerthu 'brics a mortar', yn arbennig drwy eu bod yn agored i gystadleuaeth gan fanwerthwyr ar-lein.

Mae'r lluosydd manwerthu yn gymwys i eiddo sydd â gwerthoedd ardrethol o dan £51,000 ac unrhyw un o'r disgrifiadau canlynol ar restr ardrethu annomestig leol:

- ciosg a mangre
- fferyllfa a mangre
- swyddfa bost a mangre
- siop a mangre
- siop, swyddfa bost a mangre

Mae'r disgrifiadau wedi'u dewis oherwydd y cânt eu cymhwyso i dargedu mathau o eiddo a gaiff eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer gwerthu nwyddau i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw.

Nid yw'r lluosydd manwerthu yn gymwys i siopau mawr, siopau adrannol, hyperfarchnadoedd ac archfarchnadoedd. Nid yw ychwaith yn gymwys i eiddo a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer gwerthu gwasanaethau (e.e. banciau, siopau betio a salonau) neu fwyd a diod i'w bwyta ar y safle (e.e. caffis, tafarndai a bwytai).
Ardrethi Annomestig – Lluosyddion | Busnes Cymru

## Ardrethu eiddo heb ei feddiannu

Gall perchnogion eiddo annomestig sydd heb eu meddiannu fod yn agored i dalu ardrethi eiddo gwag a godir yn ôl 100% o'r rhwymedigaeth arferol. Mae'r rhwymedigaeth yn dechrau ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 3 mis neu, yn achos eiddo diwydiannol penodol, ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 6 mis. Mae mathau penodol o eiddo wedi eu heithrio rhag ardrethi eiddo gwag.

## Rhyddhad ardrethi trosiannol

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2025 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhyddhad trosiannol i fusnesau bach y mae'r ailbrisio hereditamentau annomestig sy'n cael effaith o 1 Ebrill 2026 yn cael effaith andwyol arnynt. Mae manylion llawn gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd, yr eithriadau, y gofynion gweithdrefnol a'r rhyddhadau ardrethi perthnasol ar gael ar wefan Conwy.

## Cynigion ac apelau

Mae gwybodaeth am yr amgylchiadau y gellir cynnig newid yn y gwerth ardrethol oddi tanynt ac am sut y gellir gwneud cynnig o'r fath ar gael gan y swyddfa brisio leol a ddangosir uchod. Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau apelio ar gael oddi wrth y Cyngor neu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.
Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn darparu gwasanaeth apelau annibynnol rhad ac am ddim sy'n ymdrin ag apelau ynghylch Ardrethi Annomestig a'r Dreth Gyngor. Gellir gweld eu manylion cyswllt yma **www.valuation-tribunals-wales.org.uk.**

## Rhyddhad elusennol ac yn ôl disgresiwn

Mae hawl gan elusennau a chlybiau chwaraeon cymunedol amatur i gael rhyddhad o 80% rhag ardrethi ar unrhyw eiddo annomestig -

(a) yn achos elusennau, pan ddefnyddir yr eiddo yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol; neu
(b) yn achos clwb, pan fo'r clwb wedi ei gofrestru gyda Chyllid a Thollau EM.

Mae gan awdurdodau bilio ddisgresiwn i beidio â chodi rhan neu'r cyfan o'r 20% sy'n weddill o'r bil ar eiddo o'r fath a gallant hefyd roi rhyddhad mewn cysylltiad ag eiddo a feddiennir gan gyrff penodol nad ydynt wedi eu sefydlu nac yn cael eu rhedeg i wneud elw.

Am ragor o wybodaeth ynghylch clybiau dylech gysylltu â cyfeiriad Cyllid a Thollau EM, (y wefan yw **www.hmrc.gov.uk**). Os hoffech wneud cais am Ryddhad Trethi Elusennol a Dewisol gallwch wneud cais ar Wefan Conwy, mae'r rhain hefyd ar gael i'w lawrlwytho yn www.conwy.gov.uk/nndr. Mae'r rhain ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan yma.

Mae'n rhaid i chi hysbysu Adran Ardrethi Busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy os yw eich amgylchiadau'n newid tra'r ydych yn derbyn naill ai Gostyngiad Gorfodol neu Ddewisol Ar Y Dreth. Mae'n rhaid i'r Awdurdod hwn roi 12 mis o rybudd i chi os oes unrhyw newid mewn rhyddhad sydd eisoes wedi ei ganiatáu.

## Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod 2026/27

Anelir y rhyddhad hwn at fusnesau cymwys yn y sector lletygarwch bwyd a diod, er enghraifft tafarnau, bwytai, caffis, bariau a lleoliadau cerddoriaeth fyw. Nod y rhyddhad yw helpu'r sectorau hyn i reoli pwysau costau parhaus.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid grant i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod i fusnesau cymwys ar gyfer 2026/27. Bydd y rhyddhad yn cynorthwyo eiddo wedi'i feddiannu sy'n gymwys, drwy gynnig disgownt o 15% ar filiau ardrethi annomestig ar gyfer eiddo o'r fath. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Busnes Cymru

## Rhyddhad Gwelliannau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cynllun Rhyddhad Gwelliant Annomestig newydd o 1 Ebrill 2024.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod llawer o fusnesau yn ystyried bod y system ardrethi annomestig yn ddatgymhelliad i fuddsoddi mewn gwelliannau i eiddo, gan y gallai unrhyw gynnydd yng ngwerth ardrethol eiddo a fydd yn deillio o hynny arwain at fil uwch.  Mae rhyddhad gwelliannau wedi cael ei gyflwyno er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystr posibl hwn i dwf a buddsoddi yn y sylfaen drethu, o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

Bwriedir i'r rhyddhad gefnogi talwyr ardrethi sy'n buddsoddi mewn gwelliannau i'w heiddo annomestig a fydd yn cefnogi eu busnes, drwy roi rhyddhad rhag yr effaith y byddai cynnydd mewn gwerth ardrethol o ganlyniad i'r gwelliannau hynny yn ei chael ar eu rhwymedigaeth i dalu ardrethi annomestig am gyfnod o 12 mis.  Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn here

## DU Cyfyndrefn Rheoli Cymorthdaliadau

Dechreuodd trefn rheoli cymhorthdal y DU ar 4 Ionawr 2023. Mae'n galluogi awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a gweinyddiaethau datganoledig, i roi cymorthdaliadau sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion lleol, ac sy'n gwthio twf economaidd gan leihau afluniad i gystadleuaeth yn y DU ac yn diogelu ein rhwymedigaethau rhyngwladol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.gov.uk

# Cynnydd yn y Rhyddhad Ardrethi a Noddir gan Lywodraeth Cymru

## Rhyddhad ardrethi i fusnesau bach

"Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017"(3) yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. Mae manylion llawn gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd, yr eithriadau, y gofynion gweithdrefnol a'r rhyddhadau ardrethi perthnasol ar gael gan yr awdurdod bilio. Os ydych yn credu y gallech fod yn gymwys i gael y rhyddhad ardrethi hwn, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, dylech gysylltu â'ch Adran Trethi Busnes ar **01492 576609** neu trwy **ymholiadau.trethi-annomestig@conwy.gov.uk**, sy'n gyfrifol am benderfynu a ydych yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi ai peidio. Bydd safleoedd busnes sydd â gwerth ardrethol hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100%, a bydd y rheini sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad ar raddfa a fydd yn gostwng o 100% i sero.

| | Gwerth Trethadwy (£) | Gostyngiad (%) |
|---|---|---|
| Gwerth Trethadwy | 0 to 6,000 | 100 |
| Gwerth Trethadwy | 6,001 to 12,000 | Taprog o 100 i 0 |
| Gofal Plant | Ddim yn Berthnasol | Rhyddhad o 100% i holl eiddo gofal plant cofrestredig |
| Swyddfa Bost | 0 to 9,000 | 100 |
| Swyddfa Bost | 9,001 to 12,000 | 50 |


## Cyfyngiad Dau Eiddo

O 1 Ebrill 2018 ymlaen bydd trethdalwyr ond yn gallu hawlio Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar gyfer dau eiddo (ac eithrio gofal plant a swyddfeydd post). Os yw trethdalwr yn atebol am drethi busnes mwy na dau eiddo, bydd y dyfarniad yn seiliedig ar y ddau sydd â'r gwerth tybiannol uchaf h.y. naill ai'r gwerth ardrethol (os yw'n llai na neu'n £6,001) neu swm a gyfrifir yn defnyddio'r fformiwla briodol.  Os yw trethdalwr yn atebol am ardrethi annomestig mwy na dau hereditament a ddangosir ar restr ardrethi annomestig lleol sy'n bodloni gofynion yr amodau yn erthygl 7 (amodau gwerth ardrethol) yn unig, yn unol ag erthygl 13 mae'n rhaid i'r trethdalwr rhoi gwybod am yr hereditamentau hynny i awdurdod bilio'r rhestr honno.

**Os oes gan dalwr ardrethi unrhyw ymholiadau am ryddhad ardrethi neu daliadauyn y dyfodol, dylid cyfeirio'r rhain at yr awdurdod lleol.**

# Wyddoch chi y gall y Cyngor hefyd ddarparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfradd gystadleuol?

**Rhent unedau Diwydiannol a busnes**



**Gwastraff Masnach**





**Cyfleusterau Cyfarfod a Chynadledda**



**Trwyddedau a Hawlenni**



**Darganfod Busnesau yng Nghonwy**




**Goddefebau Parcio**



**Cefnogaeth Fusnes Conwy**



**Grant Cefnogi Busnes Conwy**



**Cyrsiau Hyfforddiant Cymorth Cyntaf**



**Draeniau preifat**



**Trwyddedau priffordd**



# BYDDWCH YN DDIGIDOL

Mae Conwy'n moderneiddio

## Wyddoch chi fod Conwy yn cynnig y gwasanaethau Canlynol?



## Debyd Uniongyrchol

Mae llawer o Fusnesau yn eich ardal yn cofrestru i dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol bob dydd. Mae'n un o'r ffyrdd mwyaf syml, diogel a rhataf i dalu – Felly beth am ymuno â nhw!

Mae 2 ddyddiad ar gael, sydd yn rhoi'r hyblygrwydd i chi ddewis y dyddiad gorau i'ch busnes, a gallwch ddewis talu eich bil un ai dros 10 neu 12 mis.  Ewch i www.conwy.gov.uk/trethi-busnes o gofrestru.

## E-Filiau

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, rydym bob amser yn trio gwella ein darpariaeth gwasanaeth, lleihau ein costau a helpu'r amgylchedd Un ffordd y gellir gwneud hyn yw wrth gynnig gwasanaeth lle mae'r cwsmer yn derbyn ei ohebiaeth trwy E-bost, sy'n lleihau costau argraffu a phostio, ac mae'r cwsmer yn derbyn eu bil mewn ffordd sy'n fwy effeithlon hefyd.

Mae nifer o'n Busnesau wedi croesawu'r newid i ddefnyddio mwy o wasanaethau digidol ac wedi dewis derbyn eu Biliau Trethi Busnes drwy E-bost - i ymuno â'r dyrfa, ewch i www.conwy.gov.uk/trethi-busnes i ddarganfad mwy!

**www.conwy.gov.uk/trethibusnes**

**ymholiadau.trethi-annomestig @conwy.gov.uk**

**01492 576609**

**Ffôn Testun:** Deialwch 18001 a rhif y gwasanaeth yr ydych yn dymuno cysylltu â nhw

**Ysgrifennwch atom yn**

**Blwch Post 1**
**Bae Colwyn**
**LL29 0GG**

**Ymwelwch â ni**

**Coed Pella**
**Conway Road**
**Colwyn Bay**
**LL29 7AY**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL